OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 172 (Cy.23)(C.2)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud - - 31 Ionawr 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 216(4)(b) a (5) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2006.

2. Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym o ran Cymru.

3. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 a'r Atodlenni iddi.

Diwrnodau penodedig

4. Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym yw 1 Chwefror 2006.

5. Y diwrnod penodedig i adran 175 ddod i rym yw 1 Medi 2006.

(**1**) 2002 p.32.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

D. Elis-Thomas
31 Ionawr 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.31.

YR ATODLEN Erthygl 4

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Chwefror 2006

Y ddarpariaeth	**Y pwnc**
Adran 47	Niferoedd derbyn
Adran 48	Cyd-drefnu trefniadau derbyn
Adran 51 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym	Diwygiadau pellach yn ymwneud â threfniadau derbyn
Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod	Diddymiadau
Atodlen 4, paragraffau 3(6), 5,6,7,12(2) a (6), 13,14	
Atodlen 22, Rhan 3, diddymu—	Diddymiadau
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(1), yn adran 84(6), y diffiniad o "the relevant standard number", adran 86(6) adran 93, yn adran 143 y cofnod yn ymwneud â'r nifer safonol perthnasol, Atodlen 23	

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 1 Chwefror 2006 y darpariaethau hynny o Ddeddf Addysg 2002 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae'r cyfeiriadau isod at adrannau ac Atodlenni (heb fanylion pellach) yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 a'r Atodlenni iddi.

Yn achos darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn ac sy'n diwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, mae'r cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn y darpariaethau hynny i'w darllen, o ran Cymru, fel cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru — gweler adran 211.

Caiff y darpariaethau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yr effaith a ganlyn—

Mae adran 47 yn diwygio Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") o ran trefniadau derbyn i ysgolion a gynhelir. Nid yw'n ofynnol bellach i ysgolion fod â niferoedd safonol (sy'n ymwneud â nifer y disgyblion sydd i'w derbyn mewn blwyddyn ysgol). Wrth benderfynu trefniadau derbyn ar gyfer ysgol, bydd yn ofynnol i awdurdodau derbyn osod nifer derbyn. Bydd Rheoliadau a chanllawiau yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrifo'r nifer hwnnw. Hyd nes bydd yr awdurdod derbyn wedi derbyn y nifer hwnnw o ddisgyblion, mae'r ddyletswydd i gydymffurfio â dewis rhiant yn gymwys. Mae adran 47 hefyd yn diwygio adran 86 o Ddeddf 1998 i ganiatáu ar gyfer niferoedd derbyn ar wahân i leoedd dydd a lleoedd byrddio pan fo ysgolion yn darparu llety byrddio.

Mae adran 48 yn diwygio Deddf 1998 i ganiatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i AALlau gyd-drefnu trefniadau derbyn i'r ysgol.

Mae adran 51 a'r darpariaethau a gychwynir yn Atodlen 4 yn gwneud diwygiadau pellach i Ddeddf 1998 o ran trefniadau derbyn i'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi'r hawl i gyrff llywodraethu ysgolion cymuned ac ysgolion gwirfoddol gael ymgynghori â hwy ynglŷn â threfniadau derbyn y mae awdurdodau derbyn ysgolion eraill yn eu hardaloedd yn bwriadu eu gwneud.

Mae adran 175 yn gosod dyletswydd ar AALlau a chyrff lywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau Addysg Bellach, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud trefniadau mewn perthynas â lles plant. Yn ogystal, rhaid iddynt roi ystyriaeth i unrhyw ganllaw a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol wrth benderfynu pa trefniadau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol Deddf Addysg 2002 wedi'u dwyn i rym o ran Cymru drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

Y ddarpariaeth	*Y dyddiad cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adrannau 14 i 17	31 Mawrth 2003	2002/3185 (Cy.301)
Adran 18(2)	31 Mawrth 2003	2002/3185 (Cy.301)
Adran (19)(6) (yn rhannol)	1 Medi 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 19 (1) i (7) (yn llawn)	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adran 20 (1) i (3), (5)	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adrannau 21 a 22	1 Medi 2004	2004/1728 (Cy.172)
Adran 23	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adrannau 27 a 28	1 Medi 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 29	1 Medi 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 30	1 Medi 2004	2004/1728 (Cy.172)
Adran 32	1 Medi 2004	2004/1728 (Cy.172)
Adrannau 33 a 34	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adran 39(1) (yn rhannol)	1 Medi 2004	2004/1728 (Cy.178)
Adran 39 (yn llawn)	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adran 40 (yn rhannol)	1 Medi 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 41	4 Rhagfyr 2003	2003/2961 (Cy.278)
Adran 42	4 Rhagfyr 2003	2003/2961 (Cy.278)
Adran 43	1 Tachwedd 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 46	1 Rhagfyr 2003	2003/2961 (Cy.278)
Adran 49	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adran 50	31 Mai 2005	2005/1395 (Cy.109)